# *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*




## Datganiad Cydgomisiynu ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn Cwm Taf

## Adroddiad Dadansoddi Ymgynghoriad Hydref 2015

| Cynnwys | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Beth roedden ni wedi'i wneud? | 4 |
| 3. | Canfyddiadau'r Ymgynghoriad<br>• Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n Cynllun Gwasanaeth?<br>• Cwestiwn 2: Ydych chi o'r farn bod ein blaenoriaethau ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn yn iawn?<br>• Tabl 1: Themâu Cyffredin<br>• Sylwadau eraill sy wedi'u derbyn<br>• Awgrymiadau a syniadau | <br>5<br>5<br>6<br>7<br>8 |
| 4. | Demograffig y rheiny a ymatebodd<br>• Ffigwr 1: Ardal yr ymatebwr<br>• Ffigwr 2: Ystod oedran yr ymatebwr<br>• Ffigwr 3: Dewis iaith<br>• Ffigwr 4: Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?<br>• Ffigwr 5: Ydych chi'n gynhaliwr?<br>• Ffigwr 6: Ydych chi'n derbyn unrhyw gymorth?<br><br>Ydych chi o'r farn y byddai'r newidiadau rydyn ni'n eu cynnig yn cael mwy o effaith arnoch chi (cadarnhaol/negyddol) oherwydd unrhyw un o'r pethau rydych chi wedi'u dweud wrthon ni uchod? | <br>9<br>9<br>9<br>9<br>10<br>10<br><br>10 |
| 5. | Adborth o gyfarfodydd a thrafodaethau mewn grŵp | 10 |
| 6. | Casgliad | 12 |
| Atodiad 1: Holiadur hir (ar gael ar-lein) Appendix 1 Public Engagement Commiss | | |
| Atodiad 2: Holiadur byr (ar gael ar-lein) Older Peoples Services Booklet.pdf | | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn newid y ffordd mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol a gwasanaethau gofal eraill yn gweithio mewn partneriaeth i helpu a chefnogi pobl. Bydd yn helpu i sicrhau bod pobl yn mwynhau lles ym mhob rhan o'u bywyd.

1.2 Er mwyn paratoi ar gyfer y ddeddf, rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol wybod a deall anghenion pobl sy'n byw yn eu hardal fel y gall gwasanaethau eu cefnogi a gofalu amdanyn nhw.

I fynd â'r maen i'r wal, caiff nifer o ymgynghoriadau cyhoeddus eu cynnal i sicrhau bod trigolion, ac yn arbennig y rheiny mae'n bosibl sy wedi'u heffeithio gan y dull gweithio newydd yma, yn cael dweud eu dweud. Bydd eu safbwyntiau'n cyfrannu at y ffordd rydyn ni'n darparu gwasanaethau yn y dyfodol yn ardal Cwm Taf (Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf).

1.3 Ar hyn o bryd, mae'ch cyngor a'ch bwrdd iechyd lleol yn cydweithio i ystyried sut maen nhw'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn yn ardal Cwm Taf. Mae gofal iechyd wedi gwella ac felly rydyn ni'n byw yn hirach. Mae nifer y bobl hŷn yn ein hardal ar gynnydd. Yn y dyfodol agos, bydd llawer mwy o bobl hŷn angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n golygu bod angen newid y ffordd rydyn ni'n darparu'r gwasanaethau hyn.

1.4 Mae cyfraith newydd ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn golygu bod angen i ni wneud pethau'n wahanol os ydyn ni am sicrhau bod pobl hŷn yn cael bywydau annibynnol, iach a llawn. Rydyn ni am gynorthwyo pobl hŷn i aros yn annibynnol, cael mwy o reolaeth dros eu gofal a dewis yn ei gylch, a pharhau i fyw gartref a bod yn rhan o'u cymuned leol.

1.5 I gynllunio'n ffordd o symud ymlaen, rydyn ni wedi llunio 'Datganiad Cydgomisiynu ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn Cwm Taf' (drafft). Yn ddiweddar, fe gynhalion ni weithgareddau gyda phobl sy'n byw yn ardal Cwm Taf er mwyn cael eu safbwyntiau nhw er mwyn sicrhau bod y ddogfen derfynnol yn adlewyrchu eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r ymgynghoriad hwnnw.

## 2. Beth roedden ni wedi'i wneud?

2.1 Dros gyfnod o 9 wythnos, rhwng 27 Gorffennaf a 28 Medi 2015, cafodd sawl ymgynghoriad (wyneb yn wyneb ac ar-lein) ei gynnal. Derbynion ni 173 ymateb gan unigolion. Cafodd adborth ei roi hefyd mewn trafodaethau grŵp (gweler tudalen 10).

2.2 Cafodd taflen fer ei pharatoi, ac fe ddisgrifiodd yn gryno y 3 lefel o wasanaethau. Gofynnodd hefyd am safbwyntiau pobl ar y cynigion newydd. Yn ogystal â hyn, cafodd fersiwn ar-lein hirach ei pharatoi, a esboniodd y cynigion yn fanylach.

2.3 Cafodd y daflen hon ei dosbarthu ar hyd a lled ardal Cwm Taf, ac roedd ar gael ym mhob man neilltuol ar gyfer y cyhoedd yn adeiladau ein sefydliadau partner.

- Aeth holl bartneriaid â chopïau o'r daflen gyda nhw i achlysuron a gafodd eu trefnu ymlaen llaw, er enghraifft, Cegaid o Fwyd Cymru. Dyma ŵyl fwyd ac amaeth flynyddol ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd.

- Cafodd cyflwyniadau eu rhoi i amrediad o grwpiau, gan gynnwys:
    - Grŵp Cynghori Pobl Hŷn RhCT (OPAG)
    - Achlysur Ymgynghori ar y Cyd — Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC)
    - Pwyllgor Cynllunio Gwasanaethau Cyngor Iechyd Cymunedol Cwm Taf
    - Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol
    - Fforwm 50+ Merthyr Tudful

- Aeth y pum cydlynydd cymunedol i weld amrediad o grwpiau ar gyfer pobl hŷn, clinigau Gwasanaeth Asesu Integredig Cymunedol (CIAS), clinigau INR, meddygfeydd teulu a chlinigau ffliw. Yn y grwpiau hyn, siaradon nhw ag unigolion am yr ymgynghoriad, a'u cefnogi nhw i lenwi'r holiaduron. O ganlyniad i hyn, cafodd 44 copi papur eu llenwi.

2.4 Roedd fersiwn ar-lein o'r holiadur hefyd ar gael i holl drigolion ar Hwb Cwm Taf ar gyfer Ymgysylltu Cymunedol (www.cwmtafhub.co.uk) a lledaenon ni'r gair ar wefannau awdurdodau lleol a phartneriaid:
- Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf (www.rctcbc.gov.uk)
- Awdurdod Lleol Merthyr Tudful (www.merthyr.gov.uk)
- Bwrdd Iechyd Cwm Taf (www.cwmtafuhb.wales.nhs.uk)
- Interlink (www.interlinkrct.org.uk)
- VAMT (www.vamt.net)

Cafodd y ddolen ei hanfon at holl aelodau Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC) ar hyd a lled Cwm Taf a Phanel Dinasyddion Cwm Taf (grŵp o dros 1,000 o oedolion sy'n cynrychioli poblogaeth Cwm Taf), a chafodd copïau papur eu hanfon drwy'r post at yr aelodau hynny sy heb fynediad i e-byst.

## 3. Canfyddiadau'r Ymgynghoriad

3.1 Cafodd cyfanswm o 136 o holiaduron papur eu llenwi a chafodd 37 eu llenwi ar-lein. Dyma grynodeb o'r sylwadau a gawson ni yn ystod y broses ymgynghori.

### Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n Cynllun Gwasanaeth?

**Nododd y rhan fwyaf o'r rheiny a ymatebodd (93%) eu bod nhw'n cytuno â'n cynllun gwasanaeth.**

| | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| Taflen | 120 | 7 |
| Ar-lein | 31 | 4 |
| **Cyfanswm (Atebion)** | **151** | **11** |

**Dywedoch chi:**

*"Mae cefnogi pobl yn gynharach yn gwneud synnwyr. O ganlyniad i'r tair lefel, mae'n haws i bobl broffesiynol a chyffredin ddeall ac adnabod y math o wasanaethau y byddai ei angen ar berson."*

*"Mae'n ymdrin â lles yn gyffredinol, sy'n wahanol i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, e.e. fe all pobl hŷn fod yn ynysig ac yn isel eu hysbryd os dydyn nhw ddim yn cymryd rhan mewn achlysuron lleol."*

*"Ydw — rhaid i wasanaethau fabwysiadu dull gweithredu cyson. Mae gormod o fylchau ar hyn o bryd, a diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn ag anghenion pobl hŷn."*

**Dyma rai o'r sylwadau negyddol:**

*"Mae gormod o bwyslais yn cael ei roi ar deuluoedd yn darparu gofal — mae hyn yn awgrymu dydy aelodau o'r teulu ddim yn gweithio neu'u bod nhw'n byw yn yr ardal leol."*

### Cwestiwn 2: Ydych chi o'r farn bod ein blaenoriaethau ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn yn iawn?

**Unwaith eto, nododd nifer o'r rheiny a ymatebodd (89%) eu bod nhw o'r farn bod ein blaenoriaethau ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn yn iawn.**

| | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| Taflen | 115 | 11 |
| Ar-lein | 28 | 6 |
| **Cyfanswm (Atebion)** | **143** | **17** |

**Dywedoch chi:**
*"Ydw, gwell atal na gwella"*

*"Ydw, ond bydd yn cymryd hwy nag un genedlaeth i'r ideoleg gael ei derbyn. Mae angen buddsoddi'n sylweddol yn ariannol. Dydy hyn ddim yn bosibl mewn oes o galedi economaidd."*

**Dyma rai o'r sylwadau negyddol:**
*"Nac ydw, mae angen canolbwyntio'n fwy ar fynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd er mwyn atal dirywiad mewn lles meddyliol a dibyniaeth."*

## Tabl 1: Themâu Cyffredin

O ddechrau i ddiwedd yr holiadur, cafodd y rheiny a ymatebodd eu hannog i gynnwys sylwadau. Yn aml, roedd y sylwadau ymwneud â'r un pynciau, ac maen nhw wedi'u nodi isod.

| Pwnc/thema | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| **Byw'n annibynnol gartref** | **37** |
| **Dywedoch chi:** *"Helpu pobl hŷn i aros yn eu cartrefi eu hun am hirach, gan sicrhau eu bod mor annibynnol â phosibl."* | |
| **Manteisio ar wybodaeth a chyngor** | **22** |
| **Dywedoch chi:** *"Mynediad haws i wybodaeth am gymorth/gwasanaethau sefydliadau gwirfoddol sydd ar gael i'r cyhoedd, er mwyn i bob un ohonon ni gymryd cyfrifoldeb dros ein bywydau ni a bywydau ein teuluoedd."* | |
| **Unigedd/unigrwydd cymdeithasol** | **21** |
| **Dywedoch chi:** *"Dylai unigrwydd fod yn flaenoriaeth. Mae angen cwmni ar bobl."* | |
| **Cludiant** | **19** |
| **Dywedoch chi:** *"Problem fawr sy'n gysylltiedig â phrosiectau a chymorth cymunedol yw cludian system ymarferol yn ei lle i gludo'r henoed i brosiectau cymunedol. Does dim modd i deuluoedd wneud hyn bob tro. Ar hyn o bryd, ac yn y gorffennol, mae hyn wedi rhoi hoelen yn arch mentrau cymunedol da."* | |
| **Urddas, parch a thrugaredd** | **15** |
| **Dywedoch chi:** *"Trin pobl â pharch, cynnal urddas pobl bob amser, cael eich trin fel unigol — nid fel 'rhif'."* | |
| **Haws cael apwyntiad i weld meddyg teulu/cael apwyntiad yn fwy buan** | **14** |

| | |
|---|---|
| **Dywedoch chi:**<br>*"Mae cleifion yn dweud wrthyf fi ei bod hi'n anodd cael apwyntiad i weld meddygon teulu — felly dydy meddygon teulu ddim fel arfer yn trin problemau symudedd parhaol neu iechyd sy'n dirywio. Mae angen rhagor o feddygon teulu ac mae angen ei gwneud hi'n haws cael apwyntiad i'w gweld."* | |
| **Cymorth y teulu/cynhaliwr** | **11** |
| **Dywedoch chi:**<br>*"Mae angen ystyried y straen ychwanegol ar aelodau o'r teulu sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau 'cynhaliwr gwirfoddol'. Er bod y rhan fwyaf ohonyn nhw'n fodlon rhoi gofal, dydy hyn ddim yn meddwl y dylen nhw wneud hynny gan fod eu hansawdd bywyd yn dirywio a allai effeithio ar eu hiechyd."* | |

## Tabl 1: Themâu Cyffredin (parhâd)

| Pwnc/thema | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| **Llety/tai** | **9** |
| **Dywedoch chi:**<br>*"Dylai'r cymorth a'r llety ychwanegol rydych chi'n sôn amdanyn nhw gael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl. Mae gwir angen rhagor o lety cysgodol a rhagor o dai cymunedol lle caiff yr henoed eu hannog i fynd yn y bore, yn y prynhawn neu drwy'r dydd hyd yn oed, os caiff cludiant ei ddarparu."* | |
| **Nawdd/adnoddau** | **7** |
| **Dywedoch chi:**<br>*"Mae darparu dewisiadau amgen (gwasanaethau preifat/gwasanaethau'r trydyc yn gofyn am adnoddau eang a, gyda golwg ar asiantaethau preifat/y trydydd se mae nawdd yn aml yn gyfyng o ran amser/dyw'r nawdd ddim yn barhaus ac ma* | |

## Sylwadau eraill sy wedi'u derbyn

Drwy gydol y broses ymgynghori, cafodd rhai sylwadau eu cyflwyno ar y pynciau canlynol.

- Cydweithredu

*"Mae'r syniad o weithio ar y cyd yn fuddiol iawn, ar yr amod y byddai'n llwyddo."*

- Iechyd

*"Caiff cleifion eu hasesu'n fwy buan yn yr ysbyty a'u symud i'r amgylchedd mwyaf priodol o ran eu gallu. Mae gormod o gleifion yn aros mewn gwelyau ysbytai, er eu bod yn ddigon iach. Yn anffodus, maen nhw'n gwaethygu — yn arbennig yn feddyliol, ac weithiau'n gorfforol (cwympo, dal heintiau yn yr ysbyty, dal afiechydon y tu hwnt i reolaeth yr ysbyty). Mae hyn felly'n gwaethygu'u problemau."*

- Staffio

*"Y peth pwysicaf oll yw'r hyn gaiff ei roi ar waith — sicrhau bod digon o bobl, a bod gyda nhw'r agwedd a'r adnoddau cywir i ofalu am y bobl sy'n agored i niwed."*

- Cymorth a Gofal

*"Darparu gofal a chymorth sydd eu hangen ar y person hŷn. Dylai pob dim rydyn ni'n ei wneud ganolbwyntio ar y person hŷn a rhoi'r dewisiadau iddo barhau i fyw'n annibynnol, cyhyd â phosibl."*

Ac i glou:

*"Po orau yw'r gofal rydyn ni'n ei gael, lleiaf yw'r arian y bydd raid ei wario arnon ni."*

*"Gwrando ar bobl, pryderu am eraill a rhoi o'ch amser i wrando ar staff a chleientiaid."*

*"Mae pobl hŷn yn byw yn hirach ac maen nhw angen yr holl gymorth sydd ar gael iddyn nhw."*

### Awgrymiadau a syniadau


Manteisiodd nifer o'r rheiny a ymatebodd ar y cyfle i gyflwyno'u hawgrymiadau eu hunain ar sut, yn eu barn nhw, y gellir gwella gwasanaethau.

Dyma'u hawgrymiadau:

- Cau'r bwlch rhwng cenedlaethau drwy fentora pobl ifainc ddiwaith mewn lleoliadau gwasanaethau gofal a chynnal rhagor o weithgareddau rhwng cenedlaethau.
- Cynnig gwasanaethau therapi rhad ac am ddim, gweld meddygon teulu penodol ac addysgu pobl am eu hafiechydon.
- Tai mwy canolog, wedi'u gwarchod ac ar gyfer pobl hŷn.
- Trefnu mannau gwybodaeth mewn lleoliadau yn y gymuned, fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden.
- Mynd i'r afael ag unigedd hir dymor — canolfannau cymdeithasol croesawgar i groesawu amrediad o gylchoedd gwahanol, sy wedi'u hyrwyddo gan gydlynwyr lleol.


## 4. Demograffig y rheiny a ymatebodd

Yn yr adran olaf, gofynnon ni ynglŷn â'r rheiny a lenwodd yr holiadur.





- Mae 9% ohonyn nhw o Ferthyr Tudful
- Mae 30.5% ohonyn nhw o Gwm Rhondda
- Mae 17.5% ohonyn nhw o Gwm Cynon
- Mae 43% ohonyn nhw o ardal Taf-elái

**Ffigwr 1. Ardal yr ymatebwr**





- Mae 2% ohonyn nhw rhwng 18 a 24 oed
- Mae 4% ohonyn nhw rhwng 25 a 34 oed
- Mae 16% ohonyn nhw rhwng 35 a 44
- Mae 20% ohonyn nhw rhwng 45 a 54
- Mae 20% ohonyn nhw rhwng 55 a 64
- Mae 20% ohonyn nhw rhwng 65 a 74
- Mae 18% ohonyn nhw'n 75 oed neu'n hŷn

**Ffigwr 2. Ystod oedran yr ymatebwr**






- Mae 96% yn defnyddio'r Saesneg o ddydd i ddydd
- Mae 3% yn ddwyieithog
- Mae 0.5% yn defnyddio'r Gymraeg fel eu prif iaith
- Mae 0.5% yn gallu defnyddio iaith arwyddion seml

**Ffigwr 3. Dewis iaith**




- Mae 5% yn derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Mae 3% yn derbyn gwasanaeth iechyd
- Mae 1% yn derbyn gwasanaeth gan y Cyngor
- Mae 1% yn derbyn gwasanaeth gan y sector gwirfoddol

**Ffigwr 4. Ydych chi'n derbyn unrhyw gymorth?**

|  |  |
|---|---|
| • Mae 18% yn gynhalwyr | • Mae 19% yn ystyried eu hun yn berson anabl |

**Ffigwr 5. Ydych chi'n gynhaliwr?**

**Ffigwr 6. Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?**

4.1 Yn olaf, gofynnwyd: **'Ydych chi o'r farn y byddai'r newidiadau rydyn ni'n eu cynnig yn cael mwy o effaith arnoch chi (cadarnhaol/negyddol) oherwydd unrhyw un o'r pethau rydych chi wedi'u dweud wrthon ni uchod?'** (e.e. yn adran ddemograffig yr holiadur)

**Roedd dros hanner (52%) o'r rheiny a ymatebodd i'r cwestiwn yma o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol arnyn nhw.**

"*Rwy o'r farn y byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol arna i oherwydd, er fy mod yn berson anabl, rwy'n ymdrechu i fyw mor annibynnol â phosibl, cyhyd â phosibl. Byddai'r newidiadau yma'n gwneud hyn yn bosibl i bobl hŷn. O ganlyniad i'r newidiadau yma, byddai heneiddio'n haws.*"

**Ond, dywedodd 48% na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith arnyn nhw'n bersonol.**

*"Ddim ar hyn o bryd. Ryw'n eithaf annibynnol fel y mae ac rwy'n ymdopi'n weddol dda ar fy mhen fy hun."*

## 5. Adborth o gyfarfodydd a thrafodaethau mewn grŵp

5.1 Drwy gydol y broses ymgynghori, cafodd cyflwyniadau eu gwneud i nifer o grwpiau er mwyn esbonio'r ymgynghoriad ac er mwyn rhoi'r cyfle i bobl ofyn cwestiynau, dweud eu dweud neu lenwi holiadur. Dyma grynodeb o'r sylwadau a gawson ni o'r sesiynau hyn.

5.2 **Cyflwyniad Grŵp Cynghori Pobl Hŷn RhCT (OPAG)**
Cafodd y cyfarfod ei gynnal ar 22 Gorffennaf. Roedd y rheiny a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn gefnogol o'r model ac, yn benodol, yn hoffi'r syniad o beidio â dibynnu cymaint ar gartrefi gofal a chynyddu cyfleoedd llety amgen.

Roedden nhw'n pryderu y byddai pobl yn canfod cymorth mewn lleoliad anffurfiol — a hynny yn ystod cyfnod pan fo'r Cyngor yn cau

cyfleusterau cymunedol. Serch hynny, fe gydnabuon nhw fod amrediad eang o gyfleusterau yn y gymuned (caffis lleol ac ati) sy'n cynnig lle i bobl gyfarfod.

Hwn oedd un o'r achlysuron ymgynghori cyntaf felly cafodd adborth ei roi ar yr holiadur ei hun, gan gynnwys y ffordd mae wedi'i gosod yn ogystal â'r eirfa. O ganlyniad i'r adborth, cafodd cryn dipyn o newidiadau eu gwneud cyn dosbarthu'r holiadur i ystod fwy eang o bobl.

**5.3 Achlysur Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC) ar y cyd**

Cynhaliodd Interlink (RhCT) a Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT) achlysur Fforwm Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant ar y cyd ar 5 Awst. Daeth 28 o bobl i'r achlysur a chynrychiolon nhw ystod eang o sefydliadau. Cafodd cyflwyniad manwl ei baratoi a'i gyflwyno.

Roedd yr adborth yn cynnwys:

- "Sut gellir sicrhau darpariaeth gofal cymdeithasol a phreswyl yn y cartref? Y teulu? Yr awdurdod lleol? Rhaid ystyried gallu teuluoedd i wneud hynny."
- “Mwy o ddisgwyliadau ar gynhalwyr”
- “Beth yw bwriad awdurdodau lleol o safbwynt codi tâl i gynhalwyr am wasanaethau?"
- “Arian i grwpiau bach i'w galluogi i weithredu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant”
- “Strôc — mwy o gymorth i ailalluogi pobl. Dementia — mwy o gymorth ar gyfer gweithgareddau prif ffrwd”

Cafodd aelodau'r Fforwm y cyfle i goladu eu hymatebion, fodd bynnag, cawson nhw hefyd eu gwahodd i gyflwyno ymatebion unigol ac annog eu buddiolwyr/defnyddwyr eu gwasanaeth i ymateb hefyd.

**5.4 Pwyllgor Cynllunio Gwasanaethau Cyngor Iechyd Cymunedol Cwm Taf**

Cafodd y cyfarfod ei gynnal ar 12 Awst 2015 ac roedd tua 10 person yn bresennol. Roedd amser yn brin, felly tynnwyd sylw'r rheiny a ddaeth i'r ymgynghoriad a gofynnwyd i aelodau rannu'r wybodaeth ac annog eraill i ymateb. Yn sgil hyn, gofynnwyd am ragor o wybodaeth am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

**5.5 Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Byrddau Iechyd Lleol**

Cafodd y cyfarfod ei gynnal ar 18 Awst 2015 ac roedd tua 20 person yn bresennol. Yn bennaf, roedd y sgwrs yn ymwneud â gofal preswyl a chynhalwyr.

**5.6 Fforwm 50+ Merthyr Tudful**

Cafodd y cyfarfod ei gynnal ar 28 Medi a rhoddodd gyfle i bobl drafod y datganiad. Daeth 89 unigolyn. Dim sylwadau.

## 6. Casgliad

6.1 Cadarnhaodd y sylwadau o'r broses ymgynghori fod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno â'n cynllun gwasanaethau ac o'r farn bod ein blaenoriaethau ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn yn iawn.

6.2 Dyma'r materion mwyaf cyffredin:

- Byw'n annibynnol gartref
- Manteisio ar wybodaeth a chyngor
- Unigedd/unigrwydd cymdeithasol
- Cludiant
- Urddas, parch a thrugaredd
- Haws cael apwyntiad i weld meddyg teulu/cael apwyntiad yn fwy buan
- Cymorth y teulu/cynhaliwr
- Llety/tai
- Nawdd/adnoddau

6.3 Hoffen ni fanteisio ar y cyfle hwn i roi diolch i'r rheiny a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad hwn.

Cafodd yr adborth hollbwysig hwn ei ddefnyddio i ddiweddaru ein 'Datganiad Cydgomisiynu ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn 2015–2025'. Bydd yn helpu i lywio'r ffordd y byddwn ni'n darparu ein gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn yn y dyfodol ar hyd a lled ardal Cwm Taf yn ogystal â diwallu ein dyletswyddau dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) newydd.